cyfnewidcymru xchangewales | eDalu

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cerdyn Pryniant Cymreig

Prynu syml a diogel gydag arbedion ar gyfer y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector

Mae cardiau pryniant yn cynnig ffordd rad a diogel o brynu nwyddau a gwasanaethau risg isel, gan alluogi defnyddwyr i leihau neu gael gwared ar brosesau biwrocratiaid prynu i dalu ac arbed arian i'w ailgyfeirio at wasanaethau rheng-flaen. Mae'r cardiau bellach wedi hen ennill eu plwyf yn sector cyhoeddus y DU, gyda thros 1000 o sefydliadau ar draws yr holl sectorau yn cynnal rhaglenni Cerdyn Pryniant y Llywodraeth gyda chymorth Trysorlys Ei Mawrhydi.

Mae'r Cerdyn Pryniant Cymreig yn gweithredu o dan gytundeb rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Banc Brenhinol yr Alban. Rhaglen cyfnewidcymru Gwerth Cymru sy'n rheoli'r cytundeb yn gyffredinol, gan roi cyngor a chymorth i sefydliadau unigol ynghylch rhoi rhaglen y cerdyn ar waith. Mae'r Cerdyn Pryniant Cymreig ar gael i'w ddefnyddio gan sefydliadau'r sector cyhoeddus ac elusennau yng Nghymru ac mae'n cynnig dewis o gardiau Visa neu MasterCard o dan delerau sy'n debyg i rai Cerdyn Pryniant y Llywodraeth.

Prif fanteision defnyddio'r Cerdyn Pryniant Cymreig yw:

- Dim ffioedd cerdyn na rhaglen ac ad-daliad ariannol blynyddol ar bob gwariant
- Gostyngiad sylweddol ar y gost o gael ystod eang iawn o nwyddau a gwasanaeth. (Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn caniatáu arbediad o £28 ar gyfartaledd ar bob pryniant)
- Galluogi staff/prynwyr ag awdurdod i gael nwyddau a gwasanaethau yn hawdd ac yn gyflym (gan gynnwys taith fusnes) ond â thrywydd archwilio clir ac atebolrwydd llawn
- Y gallu i reoli terfynau ariannol unigol a blocio trafodion ar bob Cerdyn a thryloywder prynu drwy'r system gysylltiedig rheoli data trafodion
- Y gallu i'w ddefnyddio i archebu dros y we (gwasanaeth sydd ar gael fwyfwy gan gyflenwyr) ac i dalu am nwyddau drwy systemau e-gaffael
- Talu am bob pryniant drwy un anfoneb fisol
- Cymorth i gyrraedd targedau'r Fenter Talu'n Brydlon a'r Ddeddfwriaeth Taliadau Hwyr
- Gan ddibynnu ar allu'r cyflenwr, mae modd gael gwybodaeth lawn am TAW neu Fanylion yr Eitem Fesul Llinell (h.y. lefel yr anfoneb) fel rhan o ddata trafodion y cerdyn
- Modd cael data am drafodion o fewn 2-3 diwrnod
- Yn achos cardiau MasterCard:
  - Mae'n cynnig offeryn rheoli electronig am ddim sydd wedi'i deilwra yn ôl gofynion pob sefydliad, i'w ddefnyddio i arolygu, goruchwylio, cymeradwyo, dyrannu costau a chyfrif am drafodion.
  - Mae modd allforio data wedi'i godio ar drafodion yn hawdd i'r rhan fwyaf o systemau ERP a chyllid heb lawer o waith gweinyddol.
  - Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn achredu'r system at ddibenion adrodd.
- Creu ystod helaeth o adroddiadau safonol ac wedi'u teilwra

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan:
www.xchangewales.co.uk
neu ebost:
xchangewales@wales.gsi.gov.uk

E6410910